O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 604 (Cy. 49)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

# Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/558 (Cy. 80)) ac yn pennu, o ran Cymru, set newydd o ddangosyddion perfformiad statudol y bydd perfformiad awdurdodau tân ac achub, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, yn cael eu mesur yn eu herbyn. Bydd y Gorchymyn yn cael effaith o 1 Ebrill 2015.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn pennu bod y dangosyddion perfformiad wedi eu nodi yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 604 (Cy. 49)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015

*Gwnaed* *9 Mawrth 2015*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol* *10 Mawrth 2015*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 8(1)(a) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**1**), ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ofynnol iddynt ymgynghori â hwy, o dan adran 8(3) o'r Mesur hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi, cychwyn, a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran awdurdodau tân ac achub Cymreig(**2**) a daw i rym ar 1 Ebrill 2015.

**Dangosyddion perfformiad**

**2.**—(1) Pennir y dangosyddion perfformiad yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn at ddiben adran 8(1)(a) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

---

(**1**) 2009 mccc 2.

(**2**) O dan adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, awdurdod tân ac achub Cymreig yw awdurdod yng Nghymru a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasasnaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.

(2) Mae'r dangosyddion perfformiad a bennir yn yr Atodlen yn gymwys i flynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2015 ac ar ôl hynny.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011(**1**) wedi ei ddirymu.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

9 Mawrth 2015

(**1**) O.S. 2011/558 (Cy. 80).

# YR ATODLEN

Erthygl 2

Lleihau Risgiau a Diogelwch Cymunedol

| *Cyfeirnod* | *Dangosydd* |
|---|---|
| FRS/RRC/S/001 | Cyfanswm:<br>(i) y tanau yr aethpwyd iddynt am bob 10,000 o'r boblogaeth;<br>(ii) y galwadau ffug yr aethpwyd iddynt am bob 10,000 o'r boblogaeth;<br>(iii) y gwrthdrawiadau traffig ffyrdd yr aethpwyd iddynt am bob 10,000 o'r boblogaeth;<br>(iv) y digwyddiadau eraill yr aethpwyd iddynt am bob 10,000 o'r boblogaeth. |
| FRS/RRC/S/002 | Cyfanswm:<br>(i) y marwolaethau a'r anafiadau a ddeilliodd o'r holl danau am bob 100,000 o'r boblogaeth;<br>(ii) y marwolaethau a'r anafiadau a ddeilliodd o danau damweiniol am bob 100,000 o'r boblogaeth. |

Ymateb Effeithiol

| *Cyfeirnod* | *Dangosydd* |
|---|---|
| FRS/EFR/S/003 | (i) Canran y tanau mewn anheddau a gyfyngwyd o fewn yr ystafell lle cychwynnodd y tanau. |